# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Liliwenfach**

**Ael y Bryn**
**Parc Dewi Sant**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Liliwenfach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Annie Davies<br>Sophie Hunt |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Mehefin 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn hapus ac yn mwynhau treulio amser yn Liliwenfach. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn cael cynnig dewisiadau da ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cysylltiadau cryf â'r staff gofal.

Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn meddu ar lefel uchel o gymwysterau ac yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn. Maent yn asesu galluoedd y plant, gan ddarparu gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth a chynnydd unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn wedi cyflwyno mesurau cynhwysfawr ac effeithiol iawn i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae ardaloedd chwarae ar gael i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant a'i fod yn eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiad er mwyn ysgogi eu dychymyg a'u diddordeb.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn cynnal rheoliadau ac yn cydymffurfio'n llawn â nhw, ac yn diweddaru polisïau, gweithdrefnau a chofnodion cynhwysfawr pan fo angen gwneud hynny. Maent yn gwneud gwelliannau effeithlon i'r lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau recriwtio a threfniadau datblygiad proffesiynol effeithiol ar waith i'r staff.

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac maent yn chwilio am bobl gyfarwydd y maent yn gwybod y byddant yn barod i'w helpu. Mae'r plant yn sgwrsio'n hwylus â'r staff gan ddefnyddio eu henwau cyntaf. Mae'r plant yn gyfarwydd â'i gilydd ac mae ganddynt ffrindiau. Maent yn chware'n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, mae llawer o chwerthin wrth i'r plant ymgymryd â gweithgaredd yn yr ardd chwarae. Maent yn rhoi gwybod i ni'n llawn cyffro "Rydym wedi dod o hyd i drysor!" wrth iddynt chwarae â'i gilydd yn chwilio am gerrig yn y mwd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn hyderus, gan gyfleu eu hanghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y plant ymdeimlad cadarn o berthyn. Maent yn gyfarwydd â'r trefniadau, hyd yn oed o ystyried yr arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Maent yn golchi eu dwylo ar yr adegau priodol ac yn helpu i dacluso'r teganau ar ôl eu defnyddio. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff gofal ac maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt yn ystod amser cylch neu wrth ganu.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad o'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol, gan gymryd rhan a chanolbwyntio wrth ymgymryd â gweithgareddau a ddewiswyd ganddyn nhw a thasgau o dan arweiniad y staff yn dda iawn ac am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, mae'r plant yn canu i'r gerddoriaeth wrth iddynt gamu ar hyd y cylchoedd mawr lliw ar y llawr, gan gyfri rhifau hyd at 10. Mewn ardal arall, mae un plentyn yn canolbwyntio'n llwyr ar greu tŵr gan ddefnyddio blociau mawr ac mae un arall wrthi'n creu patrymau ar bapur gan ddefnyddio peniau ffelt. Mae'r plant yn awyddus iawn i ddangos y teganau a'r gemau y maent yn chwarae â nhw.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo'n rheolaidd. Mae'r plant yn cael eu cymell yn naturiol i ddewis eu gweithgareddau chwarae o'u gwirfodd ac yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o falchder o'u cyflawniadau, ac yn gwenu wrth iddynt dderbyn canmoliaeth gan y staff gofal.

Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hybu ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn dilyn ac yn gweithredu'r canllawiau, y polisïau a'r asesiadau risg o ran mesurau amddiffynnol. Maent yn dilyn arferion glanhau ac arferion golchi dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd, gan annog y plant neu eu helpu i wneud yr un peth. Mae'r staff gofal yn rhoi cyllyll a ffyrc newydd yn lle rhai sydd wedi syrthio ar y llawr, ac yn gwisgo menig newydd pan fydd plentyn yn pesychu'n agos atynt. Mae hyfforddiant amddiffyn plant a chymorth cyntaf pob aelod o'r staff gofal yn gyfredol. Caiff cofnodion perthnasol eu cadw am ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth a chânt eu llofnodi gan y rhieni a'r staff gofal.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth a gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant.  Mae staff profiadol a chymwys yn gofalu'n effeithiol am y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson er mwyn i'r plant fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Maent yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad da a dulliau tynnu sylw i atal ymddygiad annymunol. Er enghraifft, pan fydd grŵp o blant yn bwrw eu cyllyll a'u ffyrc ar y bwrdd yn ystod amser cinio, maent yn dechrau sgwrs gyflym i weld pwy all ddyfalu beth sydd i ginio o'r arogl sy'n dod o'r gegin, gan dynnu eu sylw ar unwaith. Mae'r staff gofal yn ymateb yn gyson. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a charedig. Maent yn dathlu cyflawniadau'r plant. Er enghraifft, mae plentyn yn blasu pryd o fwyd nad yw wedi rhoi cynnig arno o'r blaen ac mae'r staff yn dathlu â sticeri, pawen lawen a chanmoliaeth.

Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am anghenion datblygiadol y plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau gyda'i gilydd, yn yr hirdymor a'r byrdymor. Maent yn cytuno ar thema ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant. Maent yn asesu cynnydd y plant ac mae'r asesiadau hyn yn llywio'r cynlluniau gweithgareddau.

Mae'r staff gofal yn dweud wrthym eu bod yn falch bod yn rhan o'r tîm. Mae'r rheolwyr yn diolch iddynt am eu gwaith ac maent yn teimlo eu bod yn eu gwerthfawrogi. Maent yn teimlo bod eu llesiant yn holl bwysig i'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth, sy'n golygu cymaint, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r staff gofal yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg â'r plant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyfri, canmol a rhoi cyfarwyddiadau.

## Yr Amgylchedd — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel iawn ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae mesurau diogelwch trylwyr yn sicrhau bod trefniadau mynediad i'r lleoliad ac o'r lleoliad yn gadarn a bod y plant yn ddiogel gan na all unrhyw un ddod i mewn i'r lleoliad na'i adael heb yn wybod i aelod o staff y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau trylwyr ar waith er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da. Mae polisïau newydd a diwygiedig ar waith er mwyn lleihau lledaeniad heintiau, oherwydd COVID-19.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn nodi'r risgiau i ddiogelwch y plant yn dda iawn ac yn eu lleihau. Maent yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw trylwyr ac yn sicrhau bod yr eiddo a'r cyfarpar mewn cyflwr da er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i blant. Cynhelir ymarferion tân bob mis, a chaiff manylion yr ymarferion hyn eu cofnodi a'u cadw'n ddiogel mewn ffeil.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu'r ardal awyr agored yn sylweddol er mwyn darparu gofod dysgu a chyfleoedd i'r plant archwilio'r ardal. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys teganau adeiladu, offer dringo, chwarae rôl ac ardal i chwarae ar deganau reidio. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys ystafell ddosbarth awyr agored fawr sy'n addas ym mhob tywydd, adnoddau a chyfarpar pren newydd. Maent wedi creu ardaloedd amlsynhwyraidd gan ddefnyddio rhisgl, glaswellt a cherrig. Mae ystafelloedd addas ar gael i'r plant wedi'u paentio a'u haddurno ag animeiddiadau, ac maent yn apelgar ac yn gyffrous iawn iddynt. Mae'r ystafelloedd hyn yn cynnwys cyfarpar synhwyraidd a chyfleoedd ar gyfer cyfnodau tawelach neu weithgareddau chwarae rôl i grwpiau bach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gosod lloriau newydd drwy'r adeilad cyfan gan ddefnyddio carped a leino. Darperir gofal i'r plant ifancach i fyny'r grisiau yn yr adeilad. Ceir cegin benodedig ar y llawr daear ac mae ardaloedd i'r plant ifanc gysgu a chael cyfnodau tawel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol yn ddatblygiadol i sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael i'r plant. Maent hefyd yn sicrhau bod digon o adnoddau o'r fath ar gael. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiadol er mwyn meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy deganau adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd.

## Arwain a Rheoli | Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud datblygiadau effeithiol o ran y ffordd y maent yn rheoli ac yn gweithredu'r gwasanaeth, ac maent yn ymrwymedig i barhau i'w wella. Mae ganddynt weledigaeth arloesol ar gyfer dyfodol eu busnes, ac maent yn rhannu'r weledigaeth honno â rhieni a gofalwyr y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u datganiad o ddiben yn gyson ac yn eu rhannu â'r rhieni. Maent yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.  Maent yn llwyddo i roi eu polisïau ar waith wrth redeg y lleoliad ac mae hyn yn amlwg iawn yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus, er mwyn bodloni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd cyfredol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, yn rhoi gweithdrefn sefydlu dda ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff ac yn annog hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o'r staff. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol, ac mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, gan eu hannog i ystyried ansawdd eu gwaith a chysondeb o ran eu hymarfer. Maent hefyd yn nodi datblygiad hyfforddi i bob aelod o'r staff. Mae'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredol yn bwrpasol ac yn cynnig adnodd ar gyfer creu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant. Maent yn ystyried unrhyw faterion a gaiff eu codi, yn eu cofnodi ac yn ymateb iddynt yn briodol.

Mae'r partneriaethau'n gadarn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff gwybodaeth am eu plant ei rhannu â'r rhieni bob dydd ar ffurf dyddiaduron dyddiol ac ar lafar. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad hwn yn dweud wrthym fod y staff gofal bob amser yn barod i drafod ac i sgwrsio am ddiwrnod eu plentyn gyda nhw.  Mae'r rhieni yn canmol y gwasanaeth yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan y feithrinfa a bod y staff rheoli yn eithriadol a'i bod yn hawdd iawn siarad â nhw. Mae'r rhieni yn teimlo fod eu plant wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran eu datblygiad a'u bod yn cael eu hysbysu'n briodol am ddatblygiad eu plentyn a newidiadau i drefniadaeth y feithrinfa.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/06/2021